Cymraeg i Bawb 2023-24

Peniarth .cymru

RHAGOR iaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Croeso!

Y Gymraeg mewn Addysg yng Nghymru.

The Welsh language within the Education system in Wales

Yn y cyflwyniad yr wythnos diwethaf:
In the presentation last week:

Peniarth .cymru | RHAGOR iaith | CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Cyrraedd miliwn o siaradwyr – **rôl i bawb!**

Reaching a million speakers – **a role for everyone!**

Copi Cymraeg:
https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf

English Version:
https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-welsh-language-strategy.pdf

Mae’r Gymraeg yn **un o drysorau Cymru**. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais fel Llywodraeth Cymru yw gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd **miliwn erbyn 2050**. Mae hon yn sicr yn uchelgais heriol, ond her rydyn ni'n credu sy'n werth chweil ac yn angenrheidiol os ydyn ni am sicrhau bywiogrwydd yr iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. *Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr Cymraeg.*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

"The Welsh language is one of the treasures of Wales. It is part of what defines us as people and as a nation. Our ambition as Welsh Government is to see the number of people able to enjoy speaking and using Welsh reach a million by 2050. This is certainly a challenging ambition, but a challenge we believe is worthwhile and necessary if we are to secure the vitality of the language for future generations." *Cymraeg 2050 - A million Welsh speakers.*

Peniarth .cymru | Rhagor iaith | Canolfan Gwasanaethau Cymraeg | Welsh Language Services Centre

Y Gweithlu Addysg / Education Workforce

"… y system addysg a hyfforddiant yw'r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae angen sicrhau bod pobl o bob oedran yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn eu bywyd bob dydd."

(tudalen 31, Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr)

"the education and training system is the principal method of creating new Welsh speakers. We need to ensure that people of all ages have the opportunity to develop their Welsh language skills and use the language with confidence in their daily life.

Page 31, Cymraeg 2050 A million Welsh Speakers)

Peniarth .cymru
RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

"Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd yng Nghymru lle bynnag yr ydym ar y continwwm ieithyddol. Mae pob disgybl yng Nghymru felly yn haeddu dod yn siaradwr Cymraeg, ac mae cyfrifoldeb arnom ni oll sy'n gweithio yn y system addysg i weithio tuag at y nod hynny."

Y Gweinidog Addasg a'r Gymraeg, Bil Addysg Gymraeg (Papur Gwyn 2023)

"Cymraeg belongs to all of us in Wales wherever we are on the language continuum. Every pupil in Wales therefore deserves to become a Welsh speaker, and there is a responsibility on each one of us that works in the education system to work towards that goal."

Education and Welsh Language Minister,
The Welsh Education Bill (2023)

Llinell Amser: Y Gymraeg mewn Addysg

Peniarth .cymru | Rhagor iaith | Canolfan Gwasanaethau Cymraeg / Welsh Language Services Centre

1990: Y Gymraeg yn bwnc gorfodol yn CA1-3 (oedran 5-14)

1999: Y Gymraeg yn bwnc gorfodol yn CA4 (oedran 14-16)

2013 **Un iaith i bawb** - Comisiynwyd adroddiad yn gwerthuso'r ddarpariaeth Cymraeg fel ail iaith yn ein hysgolion uwchradd a nododd "Heb os mae hi'n unfed awr ar ddeg ar y Gymraeg fel ail iaith".

2017 **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr** – Strategaeth hir dymor Llywodraeth Cymru i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr.

2018 - **Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth** – Safonau sy'n amlinellu'r disgwyliad i bob ymarferwr ddatblygu eu gwybodaeth, sgiliau a'u defnydd o'r Gymraeg trwy gydol eu gyrfa, yn ogystal ag ymestyn sgiliau a gallu'r dysgwyr yn y Gymraeg.

Llinell Amser: y Gymraeg mewn Addysg

2020 **Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022** Mae'r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg yn elfen o'r Maes Dysgu a Phrofiad – Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

2022 **Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg** Cynllun deng mlynedd Llywodraeth Cymru i sicrhau gweithlu sydd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol i wireddu amcanion Cymraeg 2050 a Chwricwlwm i Gymru.

2023 **Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Addysg Gymraeg (drafft ymgynghori)** – Mae'r ddogfen hon yn amlinellu newidiadau uchelgeisiol a thrawsnewidiol i'r ffordd ry'n ni'n meddwl yr iaith Gymraeg a rôl addysg yn y cyd-destun hwn.
https://www.llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-bil-addysg-gymraeg-html

Timeline: The Welsh language within the Education Sector in Wales

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

1990: Welsh compulsory in KS1-3 (ages 5-14)

1999: Welsh compulsory in KS4 (ages 14-16)

2013: **One language for all** – A report was comissioned to evaluate the Welsh second language provision in secondary schools in Wales, that concluded "It is undeniably the eleventh hour for Welsh second language".

2017: Cymraeg 2050: A million Welsh speakers - *The Welsh Government's long-term strategy to achieve the target of 1 million Welsh speakers by 2050.*

2018: Professional Standards for Teaching and Leadership – *outlines the expectation for all practitioners to develop their knowledge, skills and use of Welsh throughout their careers, as well as extending learners' skills and competence in Welsh.*

Timeline: The Welsh language within the Education Sector in Wales

Peniarth .cymru | Rhagor iaith | Canolfan Gwasanaethau Cymraeg | Welsh Language Services Centre

2020 **Cwricwlwm i Gymru:** *The journey to 2022* Welsh in the English-medium sector is an element of the Languages, Literacy and Communication Area of Learning and Experience.

2022 **Welsh in education workforce plan** Welsh Government's 10 year plan to ensure the education workforce has the necessary Welsh language skills to reach the Cymraeg 2050 aims and implement Curriculum for Wales

2023 White Paper for a Welsh Language Education Bill (consultation draft) *– This document outlines the Welsh Government's ambitious and transformational changes to the way we think about the Welsh language and the role of education in this context.*

Darllen Pellach / Further Reading

Un iaith i bawb
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/adolygiad-o-gymraeg-ail-iaith-yng-nghyfnodau-allweddol-3-a-4.pdf

One language for all
https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-07/review-of-welsh-second-language-at-key-stages-3-and-4.pdf

Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022
https://hwb.gov.wales/api/storage/9da091a5-db8b-4202-b79e-af1f336e4c25/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-2022.pdf

Curriculum for Wales: The journey to 2022 https://hwb.gov.wales/api/storage/cbe5e2c9-16cf-4eb7-87a1-c1a64fc598d8/the-journey-to-2022.pdf

Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg.pdf
Welsh in education workforce plan
https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-05/welsh-in-education-workforce-plan.pdf

Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Addysg Gymraeg (drafft ymgynghori) –
https://www.llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-bil-addysg-gymraeg-html

White Paper for a Welsh Language Education Bill (consultation draft)
https://www.gov.wales/proposals-welsh-language-education-bill-html